





Helpu disgyblion i gymryd mwy o gyfrifoldeb

Gellir defnyddio'r pwyntiau canlynol fel cod ymddygiad i athrawon a disgyblion, a gellid datblygu'r cod yn gyfres o feini prawf llwyddiant ar gyfer cymryd cyfrifoldeb.

Bydd disgyblion yn:

- ★ Ymddwyn mewn modd cyfrifol
- ★ Gofalu am ei gilydd a'u hunain
- ★ Nodi risgiau posibl a chynllunio sut i'w hosgoi/ lleihau cymaint ag sy'n bosibl
- ★ Meddwl cyn gwneud
- ★ Dilyn rheolau a gweithdrefnau diogelwch yn gyson, gan gynnwys codi, cario, gosod a defnyddio cyfarpar yn ddiogel
- ★ Dadansoddi cardiau adnoddau a chlipiau fideo i weld beth sy'n gwneud sgil neu weithred yn llwyddiannus a'r technegau a'r sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol y gellir eu defnyddio gyda'r gweithgaredd/sgil newydd hwn

- ★ Meddwl am/trafod/gofyn i'w hunain beth yw'r problemau diogelwch/pwyntiau addysgu? Sut y gellir osgoi/lleihau'r problemau diogelwch? A ydym yn dilyn y pwyntiau addysgu?
- ★ Adrodd ynghylch unrhyw bryderon i'w hathro, gan dynnu sylw at y peryglon uniongyrchol sy'n wynebu eu cyfoedion wrth wneud hynny
- ★ Cymryd mwy o gyfrifoldeb yn raddol am sbotio a chynnal ei gilydd yn ddiogel ac yn briodol bob amser. Os nad ydynt yn teimlo'n hyderus i wneud hynny, dylent naill ai trafod dewis arall y maent yn hyderus ag ef, neu ofyn i'w athro eu helpu
- ★ Cymryd mwy o gyfrifoldeb yn raddol am agweddau penodol wrth iddynt fabwysiadu gwahanol rolau






Helpu disgyblion i gymryd mwy o gyfrifoldeb

Gellir defnyddio'r pwyntiau canlynol fel cod ymddygiad i athrawon a disgyblion, a gellid datblygu'r cod yn gyfres o feini prawf llwyddiant ar gyfer cymryd cyfrifoldeb.

Bydd athrawon yn:

- ★ Gwirio'r cyfarpar yn rheolaidd ac yn tynnu sylw'r disgyblion at risgiau posibl, gan ddatblygu mwy ar ddealltwriaeth disgyblion o sut i gynnwys cyfarpar yn eu gwaith yn ddiogel
- ★ Adolygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol, er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'r pwyntiau addysgu a'r pwyntiau diogelwch angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau allweddol
- ★ Cyflwyno ystod o dasgau wedi'u gwahaniaethu i ddisgyblion sy'n eu helpu i nodi risgiau, rheoli risgiau trwy eu hosgoi neu eu lleihau
- ★ Addysgu disgyblion **cyfrifol ac aeddfed** i sbotio* a chynnal** ei gilydd 
- ★ Trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb yn raddol i ddisgyblion mewn perthynas â risg trwy ofyn cwestiynau perthnasol iddynt a gwneud iddynt feddwl. Dechreuodd y broses hon ym Modiwl 3, ond caiff ei datblygu ymhellach ym Modiwl 4
- ★ Meddwl beth yw'r materion diogelwch sy'n eich wynebu chi fel Hyfforddwr Iechyd Ffitrwydd a Lles / Hyfforddwr Sgiliau / Coreograffydd? Beth y byddwch yn ei wneud i sicrhau eich bod yn arwain mewn modd diogel?

- ★ Ystyried bod diogelwch yn arbennig o bwysig i'r hyfforddwr sgiliau. Gallai'r cwestiynau a ofynnir i'r hyfforddwr sgiliau gynnwys - beth sydd ynghlwm wrth y gweithgaredd/tasg? Beth y mae ei angen arnoch i allu rhoi cynnig ar y gweithgaredd hwn? A all eich grŵp gyflawni hyn gyda rheolaeth a chywirdeb cyson? A oes unrhyw beth am y gweithgaredd hwn sy'n beryglus/a allai roi eich grŵp mewn perygl? Beth yw'r risgiau hynny? Beth y byddwch yn ei wneud i sicrhau eich bod chi a'ch grŵp yn ddiogel? Sut y gellir osgoi/lleihau'r risg hon i lefel ddiogel? Beth yw prif bwytiau addysgu/pwyntiau diogelwch y gweithgaredd hwn? Ble mae'r dwylo/traed? Pa fath o afael sy'n cael ei defnyddio? Beth yw'r ffordd fwyaf diogel i fynd i mewn i'r ystum cydbwysu hwn? Beth yw'r ffordd fwyaf diogel i ddod allan o'r ystum cydbwysu hwn? Pa siâp sy'n cael ei ddal gan y person neu'r bobl sy'n creu'r sylfaen? Pa siâp sy'n cael ei ddal gan y person sy'n cael ei godi? Ble yw'r lle gorau i chi sefyll i sbotio/cynnal? Pa fath o gymorth y gallai fod ei angen ar y gymnastwyr? Sut y byddwch yn darparu'r cymorth hwn?
- ★ Gofyn i'r disgyblion pa gwestiynau y maent yn gofyn i'w hunain, wrth iddynt gymryd mwy o gyfrifoldeb. Am beth yr ydych yn meddwl cyn i chi roi cynnig ar y gweithgaredd hwn?
- ★ Trosglwyddo cyfrifoldeb yn raddol i'r disgyblion am agweddau penodol wrth iddynt fabwysiadu gwahanol rolau